

# Atodiad B: Sancsiynau sifil arfaethedig

## Beth yw sancsiwn sifil?

Cosb am ddiffyg cydymffurfiad â gofynion deddfwriaeth yw sancsiwn sifil. Mae'n sancsiwn canolradd wedi ei leoli rhwng llythyr o rybudd a chamau troseddol. Bydd yn rhoi'r disgresiwn, yn yr achos hwn, i awdurdodau lleol ddewis y cam gorfodi mwyaf priodol. Gellir erlyn troseddwyd difrifol o hyd, os a dim ond pan fo'n angenrheidiol gwneud hynny.

## Pa sancsiynau sifil allai fod ar gael?

Mae Rheoliad 2015/262 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau nodi'r rheolau ar gosbau pan fu diffyg cydymffurfiad â darpariaethau'r Rheoliad, a chymryd pob mesur angenrheidiol i sicrhau bod y darpariaethau yn cael eu rhoi ar waith. Mae'n ofynnol i'r cosbau a ddarperir fod yn effeithiol, yn gymesur ac yn anghymhellol. Ceir rhai opsiynau isod a allai fod ar gael, ac y gellid eu hystyried yn briodol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau:

**Cosbau Ariannol Penodedig:** Dirwy a allai gael ei chyflwyno am achosion lefel isel o ddiffyg cydymffurfiad.

**Cosbau Ariannol Newidiol:** Cosb ariannol y gellir ei gorfodi am droseddau mwy difrifol pan benderfynwyd nad yw erlyn er budd y cyhoedd.

**Hysbysiadau Adfer:** Hysbysiad ysgrifenedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gymryd camau i adfer niwed a achoswyd gan ddiffyg cydymffurfiad, fel bod y sefyllfa'n cael ei hadfer cyn belled â phosibl i sut y byddai wedi bod pe na bai unrhyw drosedd wedi cael ei chyflawni.

**Hysbysiadau Stop:** Hysbysiad ysgrifenedig yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn roi'r gorau i weithgaredd sy'n achosi niwed neu'n peri risg sylweddol o achosi niwed difrifol ac wedi arwain, neu'n debygol o arwain at ddiffyg cydymffurfiad â'r rheoliadau.

**Hysbysiadau Cydymffurfio:** Hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir gan reoleiddiwr sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gymryd camau penodol o fewn cyfnod penodol o amser i sicrhau nad yw trosedd yn parhau neu'n digwydd eto.

**Ymgymeriadau Gorfodi:** Cytundeb gan unigolyn i gymryd camau i wneud iawn am ddiffyg cydymffurfiad a'i effeithiau. Y rheoleiddiwr sy'n penderfynu a ddylid derbyn yr ymgymeriad ai peidio ym mhob achos unigol.